

Mae Conwy yn tyfu ac yn datblygu
Mae ein cymunedau bob amser yn newid.
Mae pobl yn symud i mewn – ac mae eraill yn symud allan.
Mae angen cartrefi, ysgolion, busnesau, ffyrdd a chysylltiadau trafndiaeth newydd
ac mae technoleg yn golygu ein bod ni'n byw ac yn gweithio mewn ffyrdd newydd.
Mae hyn yn dod â llawer o gyfleoedd – ond hefyd rhai heriau

Mae angen inni gynllunio rŵan ar gyfer y dyfodol
Mi fydd y cynllun newydd hwn yn cwmpasu'r 15 mlynedd nesaf.
Mi fydd yn ein helpu ni i ddilyn cyfreithiau newydd,
i gynnwys cymunedau mewn gwaith cynllunio
ac i'w gwneud hi'n haws gweithio gyda busnesau a siroedd cyfagos.

Rydyn ni wedi dechrau gwaith ar y cynllun newydd yn barod
Hyd yma, rydyn ni wedi:
edrych ar be' weithiodd yn dda dros y 5 mlynedd diwetha' a be' sydd ei angen – wrth
symud ymlaen.
paratoi'r Cytundeb Cyflenwi
edrych ar awgrymiadau tirfeddianwyr a datblygwyr ynglŷn â safleoedd.
edrych ar y dystiolaeth a siarad â chymunedau i siapio'r cynllun.

Dyma Gam 5. Dweud wrthoch chi am y cynllun rydyn ni'n ei ffafrio.

Mae'r cynllun yn manylu ar:
Ein gweledigaeth – a'n hamcanion
Annog Creu Lleoedd Cynaliadwy
Hybu Lleoedd Iach a Chymdeithasol
Datblygu Lleoedd Ffyniannus
A Gwerthfawrogi ein Lleoedd Naturiol a Diwylliannol

I wneud hyn, mae'n rhaid i ni ddatblygu yn y lleoliadau iawn –
Felly mi fyddwn ni'n canolbwyntio'r rhan fwyaf o'r datblygu ar hyd yr arfordir

Ond mae hefyd yn manylu ar ein nodau ar gyfer twf

Erbyn 2033

Mi fydd yna 4,300 o gartrefi newydd, gan gynnwys 1,800 o gartrefi fforddiadwy

Ac mi fydd **1,800** o swyddi newydd yn cael eu hychwanegu trwy ddefnyddio 12-14
hectar o dir ar gyfer defnydd busnes a defnydd diwydiannol

Mi fydd ffocws y twf mewn 5 ardal.

I'r Gorllewin – mae ffocws y cynllun ar Lanfairfechan

Mi fydd yna

- 400 o gartrefi newydd
- ysgol gynradd newydd
- man hamdden newydd
- caeau chwaraeon
- parc sglefrio
- ardaloedd chwarae i blant
- rhandiroedd
- gwelliannau i lwybrau cerddwyr, llwybrau seiclo a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus

Yn ardal Creuddyn – mae ffocws y cynllun ar Lanrhos, mi fydd yna

- 250 o gartrefi newydd
- 1 hecтар o dir ar gyfer swyddfeydd
- ysgol gynradd newydd
- rhandiroedd newydd
- ardal hamdden
- ardaloedd chwarae i blant
- caeau chwaraeon
- parcffordd coetir
- gwelliannau i lwybrau cerddwyr, llwybrau seiclo a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus

Yn yr ardal Ganolog

Hen Golwyn ydy'r prif ffocws ar gyfer twf

Gyda

- 450 o gartrefi newydd
- manau hamdden newydd
- rhandiroedd
- gwelliannau i ffyrdd, trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau seiclo
- gwelliannau i'r ysgolion cynradd ac uwchradd
- tir ar gyfer twf swyddi
- a meddygfa newydd.

I'r Dwyrain

Mi fydd datblygu'n digwydd yn Ne Ddwyrain Abergele

- i ddod â chyflogaeth
- mwy o fanwerthu
- ac ysgol newydd.

yn yr **Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig**

Llanrwst ydy ein ffocws.

Dyma'r ganolfan ar gyfer gwaith, siopa a gwasanaethau i lawer o gymunedau gwledig eraill. Felly nod y cynllun hwn ydy ychwanegu:

- 200 o gartrefi newydd
- mannau hamdden newydd
- rhandiroedd
- caeau chwaraeon
- a defnyddio tir ar Safle Diwydiannol Tŷ Gwyn ar gyfer datblygu cyflogaeth

Rydyn ni eisiau gwybod beth ydy'ch barn chi:

- Ydy ein lefelau twf yn iawn?
- Ydy ein ffocws yn iawn?
- Ydyn ni wedi gadael unrhyw beth allan?

Dewch draw i'r diwrnodau agored ar gyfer eich ardal a dweud eich dweud.